YSGOL BRYNREFAIL

GWASANETH COFFA'R HOLOCAUST

Ar yr 27ain Ionawr 2010 fe ddathlwyd gwasanaeth Coffa'r Holocaust yn Neuadd Penrhyn, Bangor.

Ymysg y gwesteion yr oedd Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Gwynedd a Maer Bangor, y Cynghorydd Jean Forsyth.

Cafwyd cyfraniadau i'r gwasanaeth gan ddisgyblion o Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Dyffryn Nantlle.

Cynrychiolwr Ysgol Brynrefail oedd ein Prif Ddisgybl, Enfys Mai Roberts, a ddarllenodd addasiad Aled Lewis Evans o gerdd Pastor Martin Niemoller.

I ddechrau daethant am yr Iddewon
ac ni chodais fy llais –
achos doeddwn i ddim yn Iddew.

Yna daethant am y comiwnyddion
ac ni chodais fy llais –
achos doeddwn i ddim yn gomiwnydd.

Yna daethant am yr undebwyr llafur
ac ni chodais fy llais –
gan nad oeddwn yn undebwr llafur

Yna daethant amdana i –
ond doedd neb ar ôl
i godi llais ar fy rhan i.

Addasiad Aled Lewis Evans o gerdd Martin Niemoller
allan o Geiriau Gorfoledd a Galar (gol) D. Geraint Lewis, 2007.